

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd 4ydd Ebrill 2018 am 7.00 o'r gloch.**

**Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 4th April 2018 at 7.00pm.**

1. **Croeso/Welcome** - Agorwyd y cyfarfod gan y Gadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol. / *Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*  
**Presennol/Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Chairperson), Delyth Jones, Mary Ellis, Alan Owen, Roger Davies, Ann Sutton, Lewis Davies, Marco Ricci, Wyn Hughes a Geraint Parry (Clerc). Cyng. / *Clr.* - Carwyn Jones and Lewis Davies  
**Nodyn / Note** - oedd 1 aelod o'r cyhoedd yn bresennol / *1 member of the public was present*  
**Nodyn / Note** - gadawodd Cyng. Carwyn Jones y cyfarfod am 20:55 / *Clr. Carwyn Jones left the meeting at 20:55*
  
2. **Ymddiheuriadau/Apologies:-** Scott Paterson a David Roberts
  
3. **Cofnodion/Minutes**  
 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed o Fawrth fel rhai cywir gan Cyng. A Sutton, eiliwyd gan Cyng. D Jones yn dilyn y gwelliannau isod:- / *Minutes of the previous meeting held on 7th March were accepted as accurate by Clr. A Sutton, seconded by Clr.D Jones with the following amendments:-*
  - Eitem 7 - Cyng. C Jones - Mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben gydag addysg ward Seiriol a oedd gyda'r opsiwn i gau Ysgol Biwmares ac i'r rhieni ddewis le i yrru plant, unai Llangoed ne Llandegfan. Mae pwyllgor ymateb Ysgol Biwmares wedi rhoi opsiynau ymlaen a fydd yn yr adroddiad o flaen pwyllgor sgrwtini i gadw Ysgol Biwmares yn agored, mae 2 o rain yn cynnwys cau Ysgol Llangoed. Clerc i anfon llythyr o gefnogaeth i gadw Ysgol Llangoed ar agor. / *Clr. C Jones - The education consultation within the Seiriol Ward has come to an end which had the option to close Beaumaris school and for the parents to decide on closure to send their children to Llangoed or Llandegfan. The Beaumaris School response committee have put alternative options forward to keep Beaumaris School open, 2 of these do include closing Llangoed School. Clerk to send a letter of support in keeping Llangoed School open.*
  - Eitem 13.2 - Cwlwm Seiriol wedi trefnu digwyddiad dim Cynghrair Seiriol / *Cwlwm Seiriol not Seiriol Alliance had organised the event*
  
4. **Datgan Diddordeb/Declaration of interest**
  - Cyng. A Owen yn datgan diddordeb ar eitem 8 - trafodaeth Pwyllgor y Neuadd - aelod o Pwyllgor y Neuadd / *Clr. A Owen declared an interest on item 8 - discussion about the Village Hall - is a member of the Village Hall committee.*
  - Cyng. C Jones yn datgan diddordeb ar eitem 7 - ar drafodaeth ar yr ymgynghoriad Ysgolion lleol ac mae ganddo ddibyniaeth iddo / *Clr. C Jones declared an interest on item 7 - discussion about the local Schools consultation which he has a dispensation for.*
  
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**
  - 5.1 Defibrillator - Sesiwn hyfforddi wedi ei drefnu ar 21/04/18 am 9.30yb yn y Ganolfan Cymunedol, Pont y Brenin / *Defibrillator - Training session arranged on 21/04/18 for 9.30am at the Community Hub, Pont y Brenin.*
  - 5.2 Ffordd rhwng Gatehouse a Tan Ffordd mewn cyflwr gwael. Cyng. L Davies yn adrodd bod y gwaith mewn llaw. / *Road between Gatehouse and Tan Ffordd is in poor condition. Clr. L Davies reported that the work is in hand.*
  - 5.3 Gysgodfa'n Bws gyferbyn ar Hen Ysgol wedi'i gracio - Cyng. A Owen yn adrodd bod angen man atgyweiriadau, disgwyl dyfynbris / *Bus Shelter opposite the Old School is cracked - Clr. A Owen reports that the shelter is in need of minor repairs, awaiting quote.*
  - 5.4 Dŵr sy'n gollwng ar allt Glanrafon gydag Adran Priffyrdd - dywedodd Cyng. L Davies bod tarddiad yn gollwng o dan wyneb y ffordd ac yn golygu gwaith mawr. / *Water leaking on Glanrafon Hill - Clr. L Davies reported that a spring is leaking under the road surface and involves major works.*
  - 5.5 Drych traffig ar y ffordd ger cysgodfa'n bws ym Mhenmon - disgwyl ymateb gan Adran Priffyrdd / *Road traffic mirror by the Bus Shelter in Penmon - awaiting response from the Highways Department*

- 5.6 Postyn wedi ei godi yn y porth i lwybr ger Tros yr Afon Penmon, gan wneud y fynedfa yn anodd gyda thractor / *Post has been erected in the gateway to the path by Tros yr Afon, Penmon, making the entry difficult with a tractor.*
- 5.8 Yn dilyn gwaith OpenReach ar y tir comin ger Bont y Rhyd - mae'r Clerc wedi cwyno i'r cwmni ynghylch cyflwr yr ardal / *Following work by OpenReach on the common land by Bont y Rhyd - Clerk has complained to the company regarding the condition of the area*
- 5.9 Adroddodd y Clerc fod Cyngor Dref Biwmares wedi codi cyflwr y ffordd rhwng Llangoed a Biwmares gyda'r Cyngor Sir ar sawl achlysur, ac maent wedi cytuno mewn egwyddor i gyfrannu at y costau. Disgwyl am ymateb pellach / *Clerk reported that Beaumaris Town Council have raised the condition of the road between Llangoed and Beaumaris with the County Council on a number of occasions and have agreed in principle to contribute towards the costs. Awaiting further response.*

## **6. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications**

- 35C331 - Tan y Graig, Llangoed - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a lledu'r fynedfa bresennol - dim gwrthwynebiad / *Full application for alterations and extensions together with widening the existing access - no objection*

## **7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Ward Seiriol / Report by Councillors of the Seiriol Ward**

- Cyng. L Davies - gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried cymryd cyfrifoldeb dros y mynwentydd hen a newydd yng Nghapel Tŷ Rhys am swm o arian. Mynegwyd pryder ynghylch faint o waith adfer sy'n gysylltiedig i'w wneud yn gyntaf. / *Clr. L Davies - asking if the Community Council would consider taking over the responsibility of the old and new cemeteries at Capel Tŷ Rhys for a sum of money? Concern was raised about the amount of remedial work that is involved*
- Cyng. L Davies - yn adrodd ar erydiad arfordirol yn dilyn y stormydd diweddar yn enwedig ger y Pines, Penmon. Cyngor Sir yn ymwybodol o'r sefyllfa. Soniwyd hefyd fod y llwybr troed ger traeth Lleiniog gyferbyn a chae Trecastell yn beryglus i ddefnyddwyr. / *Reported on the coastal erosion following the recent stormy weather especially by the Pines, Penmon. The County Council are aware of the problem. It was also reported that the footpath on the Lleiniog beach opposite Trecastell Field is very dangerous to users.*
- Cyng. L Davies - Disgwylir i ddeiliaid tai dderbyn gwelliant i'r bil Treth Gyngor blyneddol 2018/19 yn dilyn camgymeriad gan y Cyngor Sir / *Householders are expected to receive an amendment to the annual 2018/19 Council Tax bill following an error by the County Council*
- Cyng. L Davies - Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir wedi gohirio'r penderfyniad i gau Ysgol Biwmares oherwydd bod rhaid iddynt gael yr adroddiad gan ESTYN. Bydd ymgynghoriad pellach yn digwydd nawr. Crëwyd deiseb leol a threfnwyd cyfarfod gan Ffrindiau Llangoed ar 29/03 er mwyn cadw Ysgol Llangoed ar agor / *The County Councils Executive Committee deferred the decision to close Beaumaris School because they must have the report from ESTYN. A further consultation will now take place. A petition has been created locally and a meeting was arranged by Friends of Llangoed on 29/03 in support of keeping Llangoed School open.*
- Cyng. L Davies - yn dilyn y prinder dŵr diweddar, nid yw pob trigolion lleol wedi cael ad-daliad gan Dwr Cymru / *Clr. L Davies - following the recent water shortage, not all residents have received a refund from Welsh Water*
- Cyng. L Davies - yn dilyn y difrod diweddar i'r arwyddion "Dim Parcio" ger Tan Fron, mae difrod pellach wedi digwydd / *Clr. L Davies - following the recent damage to the "No Parking" signs by Tan Fron, further damage has occurred.*
- Cyng. C Jones - dywedodd y gall Cynghrair Seiriol yn medru comisiynu gwaith yn yr ardal / *Clr. C Jones - reported that Seiriol Alliance can commission work in the area.*
- Cyng. C Jones - diolchodd Ffrindiau Llangoed am drefnu Bingo Pasg / *Clr. C Jones - thanked Friends of Llangoed for arranging the Easter Bingo.*
- Cyng. C Jones - esboniodd y sefyllfa bresennol gydag Ysgol Biwmares ar benderfyniad gan y Llywodraeth i foderneiddio ysgolion / *explained the current situation with Beaumaris School and the Government decision to modernise schools*
- Cyng. C Jones - mae cyllid pellach o £150k ar gael i wella ffordd A545 / *Further funding of £150k has been made available to improve the A545*
- Cyng. C Jones - grantiau sydd ar / *available grants:-*
  - Ymddiriedolaeth Elusennol / *Charitable Trust £8k*
  - Grant Chwaraeon / *Sports Grant £1.5k*
  - Amgylchedd Tai / *Housing Environment £5k*

- Cyng. C Jones - mae'r Cyngor Sir a chwmni Kingdom wedi cytuno i beidio ymestyn eu partneriaeth / *Anglesey County Council and Kingdom Services have agreed not to extend their partnership*

### **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

- Mae'r contractwr bellach wedi symud ei offer o'r maes parcio Neuadd y Pentref ac mae llwyth o gerrig wedi cael ei ledaenu o gwmpas yr ardal. / *The contractor has now moved its equipment from the Village Hall car park and a load of stones has been spread around the area.*
- Mae gwaith ar y gweill i ddatrys y goleuadau toiled sy'n dod ar yn awtomatig / *Work is in hand to remedy the toilet lights that are coming on automatically*

### **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

- Nifer wedi mynychu'r Ffair Pasg / *Easter Fair was well attended*
- Cyng. D Jones yn esbonio cefndir a gwaith y grŵp a'r swm o arian a godwyd a'i wario yn y Gymuned ers ei greu. Eglurodd hefyd yr Helfa Drysor sydd i ddod ym mis Mai a drefnwyd gyda Cwlwm Seiriol / *Clr. D Jones - explained the background and the work of the group and the amount of money raised and spent in the Community since its creation. Also explained the forthcoming Treasure Hunt to take place in May which has been arranged with Cwlwm Seiriol.*

### **10. Tir Commin / Common Land**

- **Pen y Berth** - Clerc yn egluro'r gwaith a wnaed hyd yma gan y contractwr a bod y Cyngor Sir yn aros am benderfyniad gan y Cyngor Cymuned sut i orffen y gwaith. Mynegwyd pryder nad oedd y Cyngor Sir wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r gwaith yr oeddent yn bwriadu ei wneud ar y tir comin.  
Eglurwyd bod rhaid i Mr R Hughes wneud cais i'r Cyngor Cymuned am fynediad i'r cae oherwydd diffyg defnydd dros nifer o flynyddoedd ac felly wedi colli'r hawl tramwy.  
Penderfynwyd trwy bleidlais fwyafrifol i ofyn i'r Cyngor Sir i ail-priddo'r ardal ger y giât a phlannu gwrychoedd ar y ffin a Willow Brook.  
Penderfynwyd hefyd ysgrifennu at Mr R Hughes i ofyn am ei fwriad i ddefnyddio'r fynedfa dros y tir comin. / *Clerk explain the work carried to date by the contractor and that the County Council are awaiting a decision from the Community Council as to finish the work. Concern was expressed that the County Council had not applied in writing to the work they intended to carry out on the common land.*  
*It was explained that Mr. R Hughes has to apply to the Community Council for access to the field due to the lack of use over many years and therefore has lost the right of way.*  
*It was decided by majority vote to ask the County Council to re-soil the area by the gate and plant hedge row on the boundary with Willow Brook.*  
*Also resolved to write to Mr R Hughes to ask his intention of use of access over the common land.*
- **Penmarian** - esboniodd Cyng. R Davies y sefyllfa bresennol a bod ein cyfreithiwr wedi ymateb i gyfreithiwr yr ymgeiswyr gan nad yw'r Cyngor Cymuned yn derbyn hawliad hawl tramwy sefydledig ar droed neu fel arall ac unrhyw hawl i ymgymryd â gwaith mewn perthynas â'r tir. Codwyd pryder ynghylch y trefniant cyfredol o yswiriant a sefyllfa gyfreithiol - Clerc i sefydlu a chynghori. Nodwyd hefyd bod methiant i ddilyn cyngor cyfreithiol gall arwain at gyhuddiad o gamreoli, ymgyfreitha achos llys / *Clr. R Davies explained the current situation and that our solicitor has responded to the solicitor of the applicants in that the Community Council do not accept the claim of established right of way by foot or otherwise and any right to undertake work in relation to the land. Concern was raised regarding the current arrangement of insurance and legal position - Clerk to establish and advise. It was also pointed out that failure to follow legal advice can lead to an accusation of mismanagement.*
- **Bont y Rhyd** - Mynegwyd pryder ynghylch y cynsail a osodwyd gan y Cyngor Sir yn y camau a gymerwyd ac os yw'r deiliad tŷ cyfagos yn ymwybodol o'r amgylchiadau. Penderfynwyd gofyn i Mr P Roberts pa hawl mynediad sydd ganddo. Eglurodd y Clerc gwaith cam 2 arfaethedig gan Dŵr Cymru drwy gyfeirio at y cynllun cyflannedig i osod tanc storio yn y lleoliad hwn. Mae'r sefyllfa bresennol ar y cam dylunio ac rydym yn disgwyl rhagor o wybodaeth. / *Concern was raised about the precedent set by the County Council in the action taken and if the nearby householder is aware of the circumstances? It was decided to ask Mr Roberts what right of access he has. Clerk explained the proposed Phase 2 work by Welsh Water by referring to the supplied plan to install storage tank in this location. The current situation is at the design stage and we are awaiting further information.*

- **Min y Dwr, Penmarian** - Derbyniwyd cais gan berchnogion i osod cynhwysydd ar dir comin ger ei eiddo am gyfnod o 6 mis. Mae bellach wedi'i osod yr ardd flaen / *Received a request from the owners of Min y Dwr, Penmarian to place a container on common land by the property for a period of 6 months. Has now been placed in the front garden.*

### **11. Cyfrifon/Accounts**

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Cyflog / *Wages* - £442.37
- HMRC - £100.80
- Neuadd y Pentre' - Sioe Nadolig / *Village Hall - Christmas Concert* - £100.00

### **12. Gohebiaeth/Correspondence**

- Llywodraeth Cymru Gwariant Adran 137 / *Welsh Government Section 137 expenditure*
- Dwr Cymru – gwaith / work Bont y Rhyd
- Is y Coed - gwaith ar dir comin Pen y Berth / *Work on Pen y Berth common land*
- K Jones – cyngerdd Nadolig / *Christmas concert*
- Cyngor Sir / *County Council* – Park Terrace
- Annog – Cwlwm Seiriol
- Cyngor Sir – gwahardd traffic Ion Haulfre / *County Council – prohibition of traffic Haulfre lane*

### **13. UFA/AOB:**

- 13.1 Clerc i ofyn am Bin Ci newydd yn Lleiniog ac un ychwanegol ger Cynlais / *Clerk to request replacement Dog Bin at Lleiniog and an additional one by Cynlais.*
- 13.2 Mae'n ofynnol i wirfoddolwyr gynorthwyo gyda'r Beic Gymunedol sydd wedi'i drefnu ar gyfer 1/07/18 / *Volunteers are required to assist with the Community Bike which has been arranged for 1/07/18*
- 13.3 Mynegwyd pryder ynghylch cyflwr Llwybr yr Arfordir yn enwedig o gwmpas Parc y Ceirw ym Mhenmon. Hefyd, mae defaid yn pori yn y fynwent yn Eglwys Penmon. / *Concern was expressed about the condition of the Coastal Footpath especially around the Deer Park in Penmon. Also, sheep are grazing in the cemetery in Penmon Church.*
- 13.4 Sioe Merlod Llanddona / *Llanddona Pony Show 25/08/18*
- 13.5 Codwyd mater ynghylch cyfansoddiad y Cyngor Cymuned - Clerc i wirio / *Issue was raised regarding Community Council Constitution - Clerk to check.*
- 13.6 Esboniodd y Clerc y terfyn Gwariant Adran 137 ar gyfer 2018/19 - £7.86 am fod etholwr / *Clerk explained the Section 137 Expenditure limit for 2018/19 - £7.86 per elector.*
- 13.7 Gwarhardd traffic dros dro ar lôn Haulfre / *Temporary prohibition of traffic on Haulfre lane*
- 13.8 Cynllun Trefi Taclus a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth yn cael ei gynnal nawr ym mis Mai / *Tidy Town Scheme that was scheduled for March will now take place in May.*
- 13.9 Ffioedd Claddu Plant - Eglurodd y Clerc bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno na fydd awdurdodau claddu yng Nghymru yn codi tâl am unrhyw ffioedd am gladdu plentyn dan 18 oed. Cytunwyd yn flaenorol y bydd y Cyngor Cymuned yn gwahardd y ffioedd. / *Child Burial Fees - Clerk explained that the Welsh Government has agreed that burial authorities in Wales will not charge any fees for the burial of a child under the age of 18 years. It was previously agreed that the Community Council will waive the fees.*

### **14. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 22:00 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 02/05/18 a bydd yn cynnwys ein cyfarfod blynyddol. *There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 22:00pm. Next meeting 02/05/18 which will include our Annual General Meeting.*

Llofnod y Cadeirydd / *Chairman Signature*  
K. Williams

Dyddiad/Date